OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1264

# Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

## RHAN 15

## Gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau

**Hysbysu mewn cysylltiad â marwolaeth plentyn sy'n cael ei letya mewn cartref diogel i blant**

**62.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo plentyn y darperir gwasanaeth llety diogel(**1**) iddo yn marw.

(2) Mae unrhyw ofynion a osodir gan y rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth y gwasanaeth llety diogel a oedd yn darparu llety i'r plentyn ar adeg ei farwolaeth.

(3) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, rhaid i'r darparwr gwasanaeth yn ddi-oed hysbysu—

(a) swyddfa briodol y rheoleiddiwr gwasanaethau;

(b) yr awdurdod lleoli;

(c) yr awdurdod lleol y mae'r gwasanaeth llety diogel yn ei ardal;

(d) y Bwrdd Iechyd Lleol y mae'r gwasanaeth llety diogel yn ei ardal;

(e) Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth Cymru a Lloegr ("yr OCPh"); ac

(f) rhiant y plentyn neu'r person a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

(4) Rhaid i'r darparwr gwasanaeth ganiatáu i'r OCPh ymchwilio i'r farwolaeth drwy—

(a) rhoi i'r OCPh fynediad i—

(i) mangre'r gwasanaeth; a

(ii) dogfennau a chofnodion y gwasanaeth;

(b) caniatáu i'r OCPh fynd â chopïau, o'r fangre, o unrhyw ddogfennau neu gofnodion y ceir mynediad iddynt o dan is-baragraff (a)(ii) ar yr amod bod gan yr OCPh drefniadau diogel ar gyfer gwneud hynny; ac

(c) os byddant yn cydsynio, ganiatáu i'r OCPh gyf-weld yn breifat ag unrhyw blant, rhieni (neu bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant) neu berthnasau, neu bersonau sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

(5) Rhaid i hysbysiad o dan y rheoliad hwn—

(a) cynnwys manylion—

(i) amgylchiadau'r farwolaeth;

(ii) y personau, y cyrff neu'r sefydliadau eraill (os oes rhai) y mae'r darparwr gwasanaeth wedi eu hysbysu neu'n bwriadu eu hysbysu; a

(**1**) Mae gwasanaeth llety diogel yn wasanaeth rheoleiddiedig o dan y Ddeddf (gweler adran 2(1)(b) o'r Ddeddf). Mae paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Ddeddf yn diffinio "gwasanaeth llety diogel" fel y ddarpariaeth o lety at ddiben cyfyngu ar ryddid plant mewn mangreoedd preswyl yng Nghymru lle y darperir gofal a chymorth i'r plant hynny.

(iii) unrhyw gamau gweithredu y mae'r darparwr gwasanaeth wedi eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd o ganlyniad i'r farwolaeth;

(b) cael ei wneud neu ei gadarnhau yn ysgrifenedig.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae cyfeiriadau at yr OCPh yn cynnwys person sydd wedi ei benodi gan, neu sy'n gweithio ar ran, yr OCPh at ddibenion ymchwiliad o dan baragraff (2).